Cross Party Group on Diabetes

Supported by Jayne Bryant AM

**COFNODION Y CYFARFOD** 12:30pm - 2pm, **Dydd Mercher 21 Mawrth 2018**
Ystafell Gynadledda B, Tŷ Hywel, Bae Caerdydd, CF99 1NA.

## 1 Croeso ac ymddiheuriadau

Croeso ac ymddiheuriadau gan Jayne Bryant AC (JB)

| **Yn bresennol** | | **Ymddiheuriadau** | |
|---|---|---|---|
| Aelodau | Jayne Bryant AC - Cadeirydd | Aelodau | Llyr Gruffydd AC |
| | Dai Lloyd AC | | Yr Athro Steve Bain |
| | Polly Winn | | Dr Julia Platts |
| | Ryland Doyle | | Sean Newton |
| | Conn O'Neill | | Dr Lindsey George |
| | Bob Wright | | Wendy Gane |
| | Anthony Davies | | Dr Justin Warner |
| | Hannah | | Gethin Matthews-Jones |
| | David Chapman | | Tristan Humphries |
| | Paula Jones | | |
| | Rob Lee | | |
| | Catherine McNamara | | |
| DUK Cymru | Dai Williams | | |
| (Ysgrifenyddiaeth) | Sara Moran - Ysgrifennydd | | |
| | Leanne Jenkins | | |

## 2 Cynllun Cyflenwi Diabetes DW/Y wybodaeth ddiweddaraf gan Grŵp Gweithredu Cymru Gyfan ar Ddiabetes

- Cyflwynwyd adroddiad trosolwg yr Arweinydd Clinigol.
- Codwyd pryderon yn y cyfarfod diwethaf fod y brwdfrydedd yn gwanhau, fel y digwyddodd gyda'r cynllun blaenorol Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol Cymru (2003).
- Mae problemau'n parhau y meysydd a ganlyn a grybwyllir yn y trosolwg:
  - Addysg i gleifion.
  - Beichiogrwydd / cyn-enedigol.
  - BAME.

  - Iechyd Meddwl.
  - Y gweithlu.
  - Archwiliadau - mae canlyniadau diweddaraf yr NDA yn dangos gostyngiad o ran cwblhau 8 o brosesau gofal.
  - Gofal traed.
  - Pympiau inswlin - mae tua 5 y cant yn eu defnyddio yng Nghymru.

- Cadarnhad bod buddsoddiad y Ddeddf Gofal Gwrthgyfartal o £900,000 hyd yn hyn wedi'i dynnu'n ôl o grwpiau strôc, diabetes a'r galon gan na chafwyd unrhyw effaith gadarnhaol ar lefelau diabetes.
- Mynegwyd pryderon ynghylch ymreolaeth byrddau iechyd yng Nghymru, diffyg ymgysylltiad ar lefel uwch-reolwyr a diffyg atebolrwydd ar lefel genedlaethol.
- Hanes byr y fframwaith diabetes yng Nghymru.
- Trosolwg o ddiffyg cynllunio gweithlu / olyniaeth yng Nghymru, yn enwedig ar gyfer Nyrsys Arbenigol Diabetes.
- Trosolwg o gyflwyno Gwasanaethau Ychwanegol Diabetes (DES) i ofal sylfaenol yng Nghymru.
- Pryderon nad yw adnoddau am ddim yn cael eu defnyddio.
- Cyflwyno Ardoll y Diwydiant Diodydd Siwgr (SDIL - "y dreth siwgr") yn y DU. Y gwledydd datganoledig i gael refeniw o ailffurfio diodydd siwgr. Cadarnhad y bydd refeniw Llywodraeth Cymru yn sylweddol ond efallai na chaiff ei neilltuo ar gyfer mesurau mynd i'r afael â gordewdra yn ystod plentyndod, fel sy'n digwydd yn y gwledydd eraill.

**Gweithredu** **Y Grŵp Trawsbleidiol i ysgrifennu at fyrddau iechyd ac Iechyd Cyhoeddus Cymru am ragor o wybodaeth.**

**Gweithredu** **Anthony Davies (AD) i gael gwybodaeth fanylach am sefyllfa Llywodraeth Cymru ar refeniw SDIL.**

## 3 Trafod y materion a godwyd

Bob Wright (BW): A yw canolfannau gofal sylfaenol yn gallu gwrthod darpariaeth (DES)?
DW: darparwyd trosolwg o'r problemau cychwynnol wrth weithredu a diffyg atebolrwydd.
BW: Beth ddylai rôl AWDIG fod?
DW: Mae gan AWDIG rôl i'w chwarae wrth oruchwylio'r DDP ond mae ymreolaeth y bwrdd iechyd yn her i hyn.
AD: Trosolwg o rôl AWDIG wrth gynorthwyo gyda gwelliannau. Mae DDP yn darparu safonau cydnabyddedig y dylai byrddau iechyd eu cyflawni ac mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi hyn; er enghraifft trwy benodi rolau penodol i ganolbwyntio ar feysydd allweddol, megis pympiau inswlin.
David Chapman (DC): Cyfeiriwyd at gynnig Medtronic i fynd i'r afael â'r pryder yng Nghymru ei bod 300 y cant y tu ôl i Loegr yn y defnydd o bympiau inswlin, a bod risg y gallai lusgo'i thraed fwy fyth os na chaiff hyn ei drin.
Leanne Jenkins (LJ): Soniwyd nad yw'r seilwaith a'r cynllunio olyniaeth ar waith yng Nghymru fel y mae yn Lloegr.
SM: Cydnabyddiaeth y bydd rôl benodedig Llywodraeth Cymru yn wynebu'r un heriau a drafodwyd heddiw ac efallai bod ffyrdd o gydweithio i gefnogi'r gwaith sy'n cael ei wneud. Cytundeb gan y grŵp i wahodd y rôl i'r grŵp i gael y wybodaeth ddiweddaraf ac i drafod cydweithio yn y dyfodol.
Conn O'Neill (CON): Cais i adolygu'r data ar ddefnyddio pympiau.
AD: Esboniad o'r data
BW: Holwyd a fyddai Llywodraeth Cymru yn ystyried gwasanaeth yn y dyfodol ym Mhowys i fynd i'r afael ag ardal wledig a'r ddarpariaeth gwasanaeth yn Lloegr.
AD: Esboniad am gynllunio gwasanaethau a'r angen am gydbwyso graddfa'r boblogaeth gyda chynnal gwasanaethau o safon.

**Gweithredu** **Y Grŵp Trawsbleidiol i wahodd Cydlynydd Pympiau Inswlin i gyfarfod i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp.**

**Gweithredu** **Dai Lloyd AC (DL) i ysgrifennu at y bwrdd iechyd ynglŷn â defnyddio pympiau inswlin yn yr ardal.**

## 4 Monitro Glwcos Fflach

Darparodd LJ drosolwg o fonitro glwcos fflach a deunyddiau DUK Cymru i gefnogi'r argaeledd ar y GIG.

Trafodaeth gyffredinol ar faterion perthnasol:

- Trosolwg o'r meini prawf rhagnodi a ddatblygwyd gan Technoleg Iechyd Cymru (HTW);
- Trafod briff NICE;
- Gwaith HTW yn yr Alban a Gogledd Iwerddon;
- DVLA, fflachio a gyrru;
- Gwahaniaeth rhwng fflach, monitro glwcos parhaus a phympiau inswlin.

## 5 Busnes y Senedd (SM)

Trosolwg o'r pynciau presennol a'r dyfodol yn y Senedd:

**Strategaeth genedlaethol gordewdra:** Llywodraeth Cymru yn ei datblygu ar y cyd ag Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae DUK Cymru yn gwasanaethu ar Fwrdd y Rhaglen fel cyd-gadeirydd Cynghrair Gordewdra Cymru (OAC). Mae papur polisi OAC wedi'i lunio i lywio'r broses.

**Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018:** Cafodd y ddeddfwriaeth Gydsyniad Brenhinol ym mis Ionawr 2018, a bydd yn diwygio gofal mewn ysgolion ar gyfer plant â chyflyrau meddygol. Mae dogfennaeth ategol ar y gweill a bydd ymgynghoriad yn digwydd yn 2018. Disgwylir gweithredu ym mis Medi 2020.

**Math 1 a DKA yn y Pwyllgor Deisebau:** Deiseb y teulu Baldwin i'r Pwyllgor yn galw am ostyngiad yn nifer y plant sy'n dangos DKA adeg diagnosis (1 o bob 4 yng Nghymru ar hyn o bryd). Mae'r Pwyllgor Deisebau wedi cwblhau'r sesiynau tystiolaeth lafar gan sefydliadau, byrddau iechyd a Llywodraeth Cymru a bydd yn llunio adroddiad am yr argymhellion (sydd ar fin cael ei gyflwyno).

## 6 Y cyfarfod nesaf Gwybod Eich Risg yn y Cynulliad (13 Mehefin) (SM)

Digwyddiad blynyddol DUK Cymru ar gyfer Wythnos Diabetes eleni fydd Gwybod Eich Risg yn y Cynulliad, lle bydd gwirfoddolwyr DUKC yn darparu asesiadau risg i staff y Cynulliad ac aelodau a hoffai wybod eu risg o ddatblygu diabetes Math 2 yn awr ac yn y dyfodol. Cynhelir y prif ddigwyddiad dros amser cinio (12pm - 2pm) a bydd yn cynnwys cyflwyniad gan Team Oarstruck a rwyfodd yn ddiweddar ar draws yr Iwerydd i godi £50,000 ar gyfer DUKC ac ymgyrch Know Type 1 y teulu Baldwin.

## 7 Unrhyw fater arall

**Gweithredu** **Y Grŵp Trawsbleidiol i lunio rhestr o 'jargon' diabetes i'w dosbarthu.**

**8 Dyddiad y cyfarfodydd nesaf** - 13 Mehefin, Medi (I'w gadarnhau) a Rhagfyr (I'w gadarnhau)